**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Ffurf yr Awdurdodiadau Dros Dro) (Cyfansoddion Cobalt(II)) (Cymru) 2023**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Ffurf yr Awdurdodiadau Dros Dro) (Cyfansoddion Cobalt(II)) (Cymru) 2023.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
22 Mehefin 2023

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1. Diben yr offeryn hwn yw rhagnodi ffurf yr awdurdodiad dros dro brys ar gyfer pedwar cyfansoddyn cobalt(II) hybrin ("cyfansoddion cobalt") fel ychwanegion bwyd anifeiliaid.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig[1].

4. Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.

5. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr 'awdurdod priodol', mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ynghlych awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru.

6. Mae ychwanegion bwyd yn sylweddau, micro-organebau neu baratoadau (ar wahân i ddeunyddiau a rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid) sy'n cael eu hychwanegu'n fwriadol at fwyd anifeiliaid neu ddŵr er mwyn cyflawni un neu ragor o swyddogaethau penodol (nodir isod).
   (a) Ychwanegion technolegol (fel cyffeithyddion *(preservatives)*)
   (b) Ychwanegion synhwyraidd (fel cyflasynnau (*flavourings*) a lliwiau)
   (c) Ychwanegion maeth (fel fitaminau a mwynau)
   (d) Ychwanegion sootechnegol (fel ensymau a micro-organebau a ddefnyddir i effeithio'n gadarnhaol ar berfformiad anifeiliaid iach)
   (e) Cocsidiostatau a histomonostatau (i reoli parasitiaid perfedd)

7. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi'i gynnwys i raddau helaeth yn Rheoliad (EC) 1831/2003 (Rheoliad 1831/2003) ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maethiad anifeiliaid. Mae'r Rheoliad hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru

[1] Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys toddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

gymeradwyo a phennu’r amodau defnyddio ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid.

8. Pan fo angen awdurdodi ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar frys i sicrhau bod lles anifeiliaid yn cael ei ddiogelu, mae Erthygl 15 o Reoliad 1831/2003 yn sefydlu’r canlynol:

   > “In specific cases where urgent authorisation is needed to ensure the protection of animal welfare, the appropriate authority may provisionally authorise the use of an additive for a maximum period of five years. The authorisation is to be in a form prescribed by the appropriate authority.”

9. Mae’r Erthygl hon yn caniatáu ar gyfer y broses weinyddol o wneud awdurdodiadau dros dro brys. Mae Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd eu swyddogaeth fel yr ‘awdurdod priodol’ wedi rhoi awdurdodiadau dros dro ar gyfer y pedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid. Digwyddodd hyn ar 20 Mehefin 2023.

10. Yn ogystal, mae Erthygl 15 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdodiad(au) dros dro fod ar ffurf a ragnodir (drwy reoliadau a wneir drwy offeryn statudol) gan yr awdurdod priodol. Mae’r Offeryn hwn yn nodi ffurf yr awdurdodiadau hyn.

11. Mae deddfwriaeth ar waith i reoleiddio amodau labelu a phecynnu ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid o dan Erthygl 16 o Reoliad 1831/2003.

12. Bydd yr ASB yn diweddaru’r gofrestr o ychwanegion bwyd anifeiliaid awdurdodedig ar ran Gweinidogion Cymru, fel sy’n ofynnol gan Erthygl 17 o Reoliad 1831/2003. Gellir gweld y gofrestr yn https://data.food.gov.uk/regulated-products/landing.

13. Mae’r offeryn hwn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’i heffaith fwriadedig

14. Diben yr offeryn hwn yw rhagnodi ffurf yr awdurdodiadau dros dro brys hyn.

15. Mae cobalt yn elfen hybrin hanfodol a ddefnyddir i fodloni’r gofynion maethol ar gyfer anifeiliaid cnoi cil, ceffylau ac, i raddau llai, rywogaethau anifeiliaid eraill oherwydd ei gysylltiad â fitamin B12. Fel arfer, caiff cobalt ei ychwanegu at fwyd anifeiliaid am nad yw porfa (pridd) Prydeinig yn cynnwys digon o gobalt i gynnal da byw, yn enwedig defaid.

16. Mae’r offeryn hwn yn ymwneud â phedwar Cyfansoddyn Cobalt(II):

    - asetad cobalt(II) tetrahydrad

- carbonad cobalt(II)
- carbonad cobalt(II) hydrocsid (2:3) monohydrad
- sylffad cobalt(II) heptahydrad

17. Cafodd y cyfansoddion cobalt hyn eu hasesu'n flaenorol a'u hystyried yn ddiogel i'w defnyddio ar y ffurf awdurdodedig, gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae barn EFSA 2012 i'w gweld isod:

    - Ar gyfer asetad cobalt(II) tetrahydrad, carbonad cobalt(II) hydrocsid (2:3) monohydrad, a sylffad cobalt(II) heptahydrad – ewch i https://efsa.onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.2903/ j.efsa.2012.2791

    - Ar gyfer carbonad cobalt(II) ewch i https://efsa.onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.2903/j.efsa.2012.2727

18. Mae'r cyfansoddion cobalt hyn wedi bod ar y farchnad ers 1970 ac nid oes gan yr ASB unrhyw dystiolaeth eu bod yn anniogel.

19. Rhoddir awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid am gyfnodau o 10 mlynedd ond gellir eu hadnewyddu trwy gais. Rhaid gwneud cais i adnewyddu flwyddyn cyn i'r awdurdodiad presennol ddod i ben.

20. Bydd yr awdurdodiadau presennol ar gyfer y pedwar cyfansoddyn cobalt hyn yn dod i ben ym Mhrydain Fawr ar 15 Gorffennaf 2023. Oherwydd camgymeriad ar ran y diwydiant, ni wnaed unrhyw gais i adnewyddu erbyn y dyddiad cau statudol, sef 14 Gorffennaf 2022. Cyflwynwyd cais newydd i awdurdodi pob un o'r pedwar cyfansoddyn cobalt ym mis Tachwedd 2022. Nid oes digon o amser i fwrw ymlaen â'r cais hwn trwy'r broses asesu cynhyrchion rheoleiddiedig lawn ac i ddeddfwriaeth ddod i rym cyn i'r awdurdodiadau presennol ddod i ben.

21. Heb gamau i ymgymryd ag awdurdodiad dros dro brys o dan y pwerau perthnasol sydd ar gael, ni fyddai'r pedwar cyfansoddyn cobalt dan sylw ar gael yn gyfreithlon ar y farchnad ym Mhrydain Fawr o 15 Gorffennaf 2023 ymlaen.

22. Yn dilyn gwaith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid a'r diwydiant, mae tystiolaeth gymhellol i ddod i'r casgliad bod perygl difrifol y bydd effaith negyddol a difrifol ar les anifeiliaid (bron yn syth) os na fydd y cyfansoddion cobalt hyn ar gael mewn bwyd anifeiliaid. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddewisiadau eraill yn lle'r cyfansoddion hyn sy'n toddi mewn dŵr a allai fodloni gofynion maethol.

23. Trwy benderfyniad gweinyddol a wneir ar 20 Mehefin 2023 yn unol ag Erthygl 15 o Reoliad 1831/2003, i sicrhau bod lles anifeiliaid yn cael ei ddiogelu, mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r pedwar cyfansoddyn cobalt dros dro yn unol â'r telerau a nodir yn yr offeryn hwn.

24. Daw’r awdurdodiad dros dro i rym pan ddaw’r awdurdodiadau presennol i ben, a bydd yn para am gyfnod o 5 mlynedd. Bydd hyn yn galluogi’r pedwar cyfansoddyn hyn i aros ar y farchnad ym Mhrydain Fawr hyd nes y penderfynir ar y cais awdurdodi llawn, sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd drwy’r broses cymeradwyo Cynhyrchion Rheoleiddiedig Iawn arferol yn unol â gofynion statudol y gyfundrefn hon – gan gynnwys asesiad risg ac ymgynghoriad llawn.

25. Mae awdurdodiadau a deddfwriaeth dros dro cyfatebol wedi’u gwneud yn Lloegr a’r Alban.

## 5. Ymgynghoriad

26. Mae Erthygl 9 o Reoliad a Ddargedwir (EC) Rhif 178/2002 yn darparu bod yn rhaid ymgynghori â’r cyhoedd yn agored ac yn dryloyw wrth baratoi, gwerthuso ac adolygu cyfraith bwyd, ac eithrio mewn amgylchiadau brys.

27. Er mwyn gallu bod yn fodlon bod angen awdurdodi’r pedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid hyn ar frys i ddiogelu lles anifeiliaid, mae’r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi ymgysylltu’n helaeth â rhanddeiliaid a’r diwydiant ar y risgiau sy’n gysylltiedig â thynnu’r pedwar cyfansoddyn cobalt hyn o’r farchnad. Mae pob un wedi rhoi tystiolaeth gymhellol i gefnogi’r safbwynt ei bod yn bwysig i’r cynhyrchion awdurdodedig hyn aros ar y farchnad.

28. Darparodd ymatebion a ddaeth i law gan y Cydffederasiwn Diwydiannau Amaethyddol (AIC) a Chymdeithas Ychwanegiadau Bwyd Anifeiliaid a Gwneuthurwyr Ychwanegion Prydain (BAFSAM) dystiolaeth gref o blaid y pedwar awdurdodiad cobalt. I grynhoi, mae diffyg cobalt mewn anifeiliaid (yn enwedig anifeiliaid cnoi cil) yn arwain at golli chwant bwyd, llai o dwf, culhad (*emaciation*) difrifol, gwendid, anemia a lefelau is o ffrwythlondeb, a chynhyrchiant llaeth a gwlân is. Mae cymdeithasau masnach bwyd anifeiliaid y DU y soniwyd amdanynt uchod wedi nodi mai rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd y caiff y rhan fwyaf o ychwanegion cobalt eu rhoi i anifeiliaid. Cânt eu rhoi bob 3 wythnos i anifeiliaid ifanc yn ystod y gwanwyn/haf ac i ddefaid/gwartheg yn ystod yr haf/hydref. Gan nad yw’r rhan fwyaf o’r hyn sy’n cael ei fwydo i anifeiliaid cnoi cil yn cynnwys digon o gobalt i gefnogi eu gofynion maeth, mae’r diwydiant yn amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at anifeiliaid yn marw o fewn 3-12 mis os na chaiff cobalt ei ddefnyddio fel ychwanegyn. Gellir gweld yr wybodaeth yn [https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Soluble%20Co%28II%29%20salts%20are%20essential%20for%20the%20production%20of% 20atodiad%20products.pdf](https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Soluble%20Co%28II%29%20salts%20are%20essential%20for%20the%20production%20of%20atodiad%20products.pdf)

29. Yn ogystal, cynhaliodd yr ASB ymgynghoriad a barodd pythefnos rhwng 26 Mai 2023 a 09 Mehefin 2023. Cafodd ei gyhoeddi ar wefan yr ASB a’i ddosbarthu’n uniongyrchol i randdeiliaid a dargedwyd ac awdurdodau lleol yn y DU. At hyn, gwnaeth yr ASB hefyd roi gwybod i randdeiliaid allweddol yng Nghymru am yr ymgynghoriad pan gafodd ei lansio, a

rhoddodd ddiweddariad i randdeiliaid yng Nghymru eto wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Gellir gweld yr ymgynghoriad yn https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/ymgynghoriad-ar-awdurdodiadau-dros-dro-arfaethedig-ar-gyfer-pedwar-ychwanegyn-bwyd-anifeiliaid-iw-defnyddio-mewn-bwyd

30. Daeth cyfanswm o 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law, a hynny gan gyrff masnach, sefydliadau anllywodraethol, ac adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n cynrychioli buddiannau ledled y DU. Roedd pob un o'r 14 o ymatebion a ddaeth i law o blaid y cynnig i sicrhau awdurdodiad brys, gan gydnabod yr effaith negyddol ar iechyd anifeiliaid pe bai'r ychwanegion hyn yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, a'r effeithiau canlyniadol.

31. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ymatebion dilynol yr ASB, wedi'u cyhoeddi ar wefan yr ASB.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

32. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn oherwydd diben yr awdurdodiadau dros dro brys yw galluogi'r pedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid awdurdodedig i aros ar y farchnad yng Nghymru am gyfnod cyfyngedig hyd nes y penderfynir ar geisiadau llawn am ailawdurdodi. Disgwylir i'r costau ymgyfarwyddo fod yn fach iawn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

## 7. Adolygiad ôl-weithredu

33. Mae'r pedwar cyfansoddyn cobalt wedi'u hawdurdodi dros dro am gyfnod o 5 mlynedd, yn dechrau ar 15 Gorffennaf 2023, tra arhosir am benderfyniad ar y cais i ailawdurdodi'r pedwar ychwanegyn yn llawn. Bydd yr awdurdodiadau dros dro a'r offeryn hwn yn cael eu dirymu unwaith y bydd y cais llawn wedi'i benderfynu.